

Canllaw Defnyddwyr Rhif 6

Etifeddu deunyddiau a gadwyd yn Archifdy Sir y Fflint

Mae llawer o'r deunydd archif yn Archifdy Sir y Fflint yn cael ei gadw "ar adnau" - hy, mae'r berchnogaeth yn cael ei chadw gan y person sy'n adneuo'r cofnodion ac mae wedi ymrwymo i gytundeb gydag Archifdy Sir y Fflint ynghylch gofalu am y deunydd a mynediad ato.

Oherwydd bod adneuron yn cael eu gwneud ar sail barhaol, mae'n anochel y daw'r amser pan fydd y person a wnaeth yr adnau yn marw a daw olynnydd yn berchennog newydd y deunydd. Mae'r canllaw hwn yn amlinellu sut mae Archifdy Sir y Fflint yn delio â sefyllfa o'r fath a'r hyn mae ei angen oddi wrth y perchennog newydd.

Yn ddelfrydol, byddai Archifdy Sir y Fflint yn cael ei hysbysu'n fuan ar ôl y farwolaeth bod hyn wedi digwydd a phwy yw'r perchennog newydd. Fodd bynnag, efallai na fydd yn ymarferol gwneud hyn ar y pryd am amrywiaeth o resymau. Cyn gynted ag y gwyddom amdano, yr hawsaf yr ydyw i wneud y newidiadau angenrheidiol, ond waeth pa mor hir ydyw, byddem yn annog unrhyw un sydd wedi etifeddu cofnodion a adneuwyd gyda ni i gysylltu â ni.

Ni allwn delio â sefyllfa o'r fath yn ein hystafell chwilio na dros y ffôn. Er mwyn gallu delio â'ch cais mewn ffordd drylwyr a phriodol, gofynnwn i chi gysylltu yn ysgrifenedig: trwy lythyr neu e-bost. Rydym angen gwybod pwy ydych chi, oddi wrth bwy yr ydych wedi etifeddu a pha ddeunydd yr ydych wedi'i etifeddu. Er mwyn sicrhau diogelwch y deunydd unigryw yn ein gofal, rydym angen tystiolaeth mai hyn yw'r achos.

Mae angen tystiolaeth o ddau beth arnom: yn gyntaf bod yr adneuwyr gwreiddiol wedi marw ac yn ail mai chi yw'r buddiolwr.

Dylid darparu prawf o'r farwolaeth trwy gopi o'r dystysgrif marwolaeth.

Ar gyfer yr ail, dylid darparu copi o ewyllys yr ymadawedig naill ai'n nodi'n glir beth yw'r deunydd a'u bod yn ei adael i chi trwy ei enwi neu (os nad yw'r deunydd archif a adneuwyd wedi'i enwi'n benodol neu wedi'i nodi yn yr ewyllys) yn nodi'n glir mai chi yw'r prif etifedd neu eich bod wedi etifeddu gweddill yr ystâd.

Yn absenoldeb ewyllys, bydd angen prawf clir mai chi yw perthynas agosaf yr ymadawedig fel y gellid tybio mai chi yw etifedd y deunydd archif a adneuwyd gan yr ymadawedig. Byddai llythyr cyfreithiwr yn brawf boddhaol o hyn. Nid yw prawf o berthynas (fel dystysgrif geni) yn ddigon gan y gallai fod mwy nag un person â hawliad cyfartal.

Yn absenoldeb prawf boddhaol, byddem yn gorfod gwrthod hawliad o berchnogaeth. Ni fyddai'n golygu y byddem yn gwneud hawliad i berchnogaeth ein hunain ond

byddem yn ystyried bod y perchennog yn 'berson neu bersonau anhysbys' nes bod prawf boddhaol o berchnogaeth yn cael ei gynhyrchu.

Ar ôl i brawf gael ei gynhyrchu a'i dderbyn, byddwn yn diwygio ein cofnodion er mwyn eich nodi chi fel perchennog y deunydd a llunio cytundeb adnau newydd i chi arwyddo.

Gellir cysylltu ag Archifdy Sir y Fflint trwy e-bost: archives@flintshire.gov.uk neu drwy'r post: Archifdy Sir y Fflint, Yr Hen Reithordy, Lôn y Rheithordy, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5 3NR.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r Archifdy i gael fersiwn Saesneg.
Ffôn: 01244 532364; e-bost: archives@flintshire.gov.uk**